Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol − Grant Rheoli Llifogydd yn Naturiol

## Canllaw Sut i Lenwi

Ebrill 2023

Os oes gennych ymholiadau, cysylltwch â changen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru drwy anfon e-bost at: **Floodcoastalrisk@llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG44178 ISBN digidol 978-1-80391-492-3

# Grant Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol – Grant Rheoli Llifogydd yn Naturiol

## Canllaw Sut i Lenwi

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn rhoi arweiniad cam wrth gam ichi ar sut i lenwi'ch cais am Grant Rheoli Llifogydd yn Naturiol i Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r canllaw hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.


Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i'n gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

**Cynnwys**


| Pwnc | Rhif y dudalen |
|---|---|
| **Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Hafan** | **5** |
| **Y Dudalen Ffurflenni** | **6** |
| **Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol – Grant Rheoli Llifogydd yn Naturiol – Dechrau Arni** | **7** |
| **Cyflwyniad** | **7** |
| **Hysbysiad Preifatrwydd** | **8** |
| **Manylion y Prosiect** | **9** |
| **Manylion lleoliad y prosiect** | **11** |
| **Tystiolaeth o lifogydd** | **14** |
| **Cost a manteision** | **17** |
| **Manteision ehangach a Nodau Llesiant** | **19** |
| **Manylion y gwaith arfaethedig** | **22** |
| **Ymgynghoriadau a Chysyniadau** | **23** |
| **Gwerth am Arian** | **24** |
| **Rhestr Gwirio Dogfennau Ategol** | **24** |
| **Tudalen Gyflwyno – Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb** | **25** |
| **Tudalen Gyflwyno – Datganiadau ac Ymrwymiadau** | **26** |
| **Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno** | **27** |
| **Cyflwyno dogfennau ategol** | **28** |

**Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Hafan**

Mewngofnodwch ar eich Cyfrif RPW Ar-lein – nodwch eich Rhif Defnyddiwr a’ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.




Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i’ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl ichi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein, fe welwch dudalen ‘Hafan’ RPW Ar-lein.

**Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Hafan**

I gael mynediad i'r cais am Grant Rheoli Llifogydd yn Naturiol i Reoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol, cliciwch y Tab sydd â’r label 'Ffurflenni' ar sgrin gartref RPW Ar-lein, fel y dangosir isod.





I newid yr iaith ar unrhyw adeg, cliciwch ar y botwm ar frig y sgrin, ar y dde i’r wybodaeth am RPW Ar-lein. Bydd hynny’n caniatáu ichi ddewis ym mha iaith y bydd eich cais am Grant Rheoli Llifogydd yn Naturiol i Reoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn cael ei arddangos.

## Y Dudalen Ffurflenni


Ar ôl ichi ddewis y tab 'Ffurflenni', byddwch yn gweld y ffurflenni sydd ar gael ichi eu llenwi.

Dewiswch y Grant Rheoli Llifogydd yn Naturiol Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol o'r rhestr



## Dechrau arni


Ar ôl darllen y Llawlyfr Rheolau, cliciwch y botwm Dechrau i ddechrau ar eich cais.




## Cyflwyniad

Dyma'r dudalen gyflwyno sy'n rhoi gwybodaeth am y Grant Rheoli Llifogydd yn Naturiol i Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.


#




Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch y botwm Nesaf.

# Hysbysiad Preifatrwydd

Dyma'r hysbysiad Preifatrwydd y mae'n rhaid ichi ei ddarllen.



Rheoli Perygl llifogydd ac Erydu Arfordirol – Grant Rheoli Llifogydd yn Naturiol

Help

- Cyflwyniad
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Manylion y prosiect
- Manylion lleoliad y prosiect
- Tystiolaeth o lifogydd
- Costau a Manteision
- Manteision Ehangach a Nodau Llesiant
- Manylion y gwaith arfaethedig
- Ymgynghoriadau a Chaniatadau
- Gwerth am Arian
- Rhestr Wirio o Ddogfennau Ategol

Printio English

Hysbysiad Preifatrwydd

Yn ôl Safio Nesaf

## Hysbysiad Preifatrwydd: Grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

**Cyflwyniad/Cefndir**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ar gyfer awdurdodau rheoli perygl llifogydd at ddibenion lleihau'r risgiau gan lifogydd a/neu erydu arfordirol.

Er mwyn inni reoli'r grantiau bydd angen inni brosesu data personol amdanoch chi a'ch sefydliad er mwyn gweinyddu a rhoi'r grant . Cyn inni roi'r cyllid grant ichi, ac yn ystod cyfnod y dyfarniad grant, mae'n bosibl y byddwn yn cynnal gwiriadau at ddibenion atal twyll a gwyngalchu arian, ac i wirio pwy ydych chi.

**Beth yw'r Sail Gyfreithiol ar gyfer prosesu?**

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu gais am gyllid grant. Byddwn yn ei brosesu yn unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol a freiniwyd ynom i ddarparu cymorth ariannol drwy gyllid grant i gefnogi amcanion gweinidogol, i atal twyll a gwyngalchu arian, ac i ddilysu pwy ydych. Mae prosesu o'r fath hefyd yn un o ofynion y cyllid grant yr ydych wedi gofyn amdano a bydd yn ein helpu i asesu eich cymhwysedd i dderbyn y cyllid grant.

**Pa wybodaeth bersonol mae angen inni ei phrosesu?**

Er mwyn prosesu eich grant bydd angen y wybodaeth bersonol ganlynol arnom:

- eich enw
- cyfeiriad eich swyddfa a chyfeiriadau blaenorol eich swyddfa
- manylion cyswllt eich sefydliad fel cyfeiriad e-bost a rhifau ffôn
- manylion sefydliadau trydydd parti

**Pam mae angen inni brosesu eich data personol?**

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich gwybodaeth i gadw mewn cysylltiad wrth weinyddu eich cais am gyllid grant.
Yn ogystal, mae'n bosibl y byddwn ni, ac asiantaethau atal twyll, yn defnyddio'r wybodaeth hon, gan gynnwys unrhyw ddata personol, i atal twyll a gwyngalchu arian, ac i wirio pwy ydych chi. Mae'n bosibl hefyd y byddwn ni ac asiantaethau atal twyll yn caniatáu i asiantaethau gorfodi'r gyfraith weld a defnyddio eich data i atal, canfod ac ymchwilio i drosedd.

Efallai y byddwn ni, ac asiantaethau atal twyll, yn defnyddio'r wybodaeth hon, gan gynnwys unrhyw ddata personol, i atal twyll a gwyngalchu arian, ac i wirio pwy ydych chi. Efallai y byddwn ni ac asiantaethau atal twyll hefyd yn galluogi asiantaethau gorfodaeth cyfraith i gael mynediad at eich data personol a'i ddefnyddio i ganfod, ymchwilio ac atal troseddu.

**Am ba mor hir y byddwn yn cadw eich data personol**

Yn dilyn cwblhau'r grant bydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich gwybodaeth bersonol am gyfnod rhwng saith a deng mlynedd, yn dibynnu ar natur y dyfarniad grant, yn unol â'n Polisi Cadw Data.
Caiff asiantaethau atal twyll gadw eich data am gyfnodau gwahanol, yn dibynnu ar sut mae'r data hwnnw'n cael ei ddefnyddio. Os ystyrir eich bod yn peri risg o dwyll neu wyngalchu arian, caiff asiantaethau atal twyll gadw eich data am hyd at chwe blynedd ar ôl ei dderbyn.

**A fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu?**

Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg twyll neu wyngalchu arian, a gall arwain at eraill yn gwrthod darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, cysylltwch â ni i gael mwy o wybodaeth gan ddefnyddio'r manylion isod.

**Eich hawliau:**

**O dan GDPR y DU mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:**

- Gweld copi o'ch data eich hun;
- Gofyn inni gywiro anghywirdebau yn y data hwnnw;
- Gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu data (mewn rhai amgylchiadau);
- Gofyn i'ch data gael ei 'ddileu' (mewn rhai amgylchiadau); and
- Cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

**Manylion cyswllt**

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 or 0303 123 1113

Gwefan: https://ico.org.uk/

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r ffordd mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ


E-bost: dataprotectionofficer@llyw.cymru

Gadael Yn ôl Safio Nesaf


Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch y botwm Nesaf.

## Manylion y Prosiect

Rhaid ichi ateb yr holl gwestiynau gorfodol sydd wedi'u marcio â * ar y dudalen hon. Bydd Enw'r Awdurdod Rheoli Risg yn cael ei lenwi'n awtomatig.




Mae'r system yn cynnal archwiliadau sylfaenol o gywirdeb y data sydd wedi'u cynnwys ar y ffurflen hon a bydd unrhyw negeseuon am gamgymeriadau neu unrhyw wybodaeth yn ymddangos ar ôl ichi glicio 'Cadw' neu 'Nesaf.





Ar ôl ichi gywiro unrhyw gamgymeriadau ac ateb yr holl gwestiynau ar bob tudalen, cliciwch

ar y botwm Nesaf.


## Manylion lleoliad y prosiect

Rhaid ichi ateb yr holl gwestiynau gorfodol sydd wedi'u marcio â * ar y dudalen hon.

Bydd gwybodaeth ychwanegol ar gyfer cwestiynau yn cael ei harddangos pan fyddwch yn rhoi'r cyrchwr dros y symbol ? ar y dudalen hon.
Rhowch fanylion lleoliad y prosiect.




Nodwch leoliad y cynllun ar y map.



Bydd y map yn agor drwy ddangos ardal yr Awdurdod Rheoli Risg sy'n cyflwyno'r cais. harddangos.

Dewiswch yr ardal i luniadu'r lleoliad drwy ddefnyddio'r bar chwilio a dewis enw'r ardal neu'r cod post.




Gallwch hefyd ddefnyddio'r + a – i chwyddo i mewn ac allan.

Dewiswch + Lluniadu'r arwynebedd ar y map. Wrth luniadu'r ardal, cliciwch ar y map a llusgo'r cyrchwr i greu'r siâp, a fydd yn cael ei ddangos mewn glas.






I ddileu darn o'r ardal sydd wedi'i lluniadu eisoes , dewiswch – Dileu yr arwynebedd a lluniadu'r ardal i'w dileu.

Os ydych am ddileu'r lleoliad a luniadwyd, dewiswch Clirio.


Pan fyddwch wedi gorffen, dewiswch Cwblhawyd

Dewiswch Etholaeth y Senedd a Rhanbarth y Senedd o'r cwymplenni.




Rhaid dewis amcangyfrif o ddyddiad dechrau a diwedd y cynllun.




**Tystiolaeth o lifogydd**

Rhaid ichi ateb yr holl gwestiynau gorfodol sydd wedi'u marcio â * ar y dudalen hon.


Bydd gwybodaeth ychwanegol ar gyfer cwestiynau yn cael ei harddangos pan fyddwch yn rhoi'r cyrchwr dros y symbol ? ar y dudalen hon.

Os bydd Llifogydd Arfordirol, Prif Afon, Cwrs Dŵr Cyffredin neu Ddŵr Wyneb yn cael eu dewis yn y cwestiwn 'Mynd i'r Afael â Risg' yn yr adran Manylion y Prosiect, bydd angen Enw'r CARR.





Dewiswch enw CARR o'r gwymplen.


Bydd enwau CARR yn cael eu harddangos ar gyfer yr Awdurdod Rheoli Risg sy'n cyflwyno'r cais.



Dewiswch y perygl llifogydd y bwriedir mynd i'r afael ag ef o'r gwymplen.




Ar ôl ichi gofnodi nifer y digwyddiadau llifogydd, rhaid ichi ychwanegu rhagor o fanylion drwy glicio ar y botwm Ychwanegu Digwyddiad. Rhaid i nifer y Digwyddiadau Llifogydd a restrir gyfateb i'r nifer a nodir yn 'Amlder – nifer y digwyddiadau.




## Tystiolaeth o lifogydd – Manylion llifogydd sydd wedi digwydd

Rhaid cofnodi'r holl lifogydd sydd wedi digwydd ar y dudalen hon.


Rhaid ichi ateb yr holl gwestiynau gorfodol sydd wedi'u marcio â * ar y dudalen hon.

Bydd gwybodaeth ychwanegol ar gyfer cwestiynau yn cael ei harddangos pan fyddwch yn rhoi'r cyrchwr dros y symbol ? ar y dudalen hon.


Rhaid dewis dyddiad y digwyddiad llifogydd. Os dim ond mis y digwyddiad yr ydych yn ei wybod, defnyddiwch y 1af o'r mis hwnnw fel dyddiad.




Os ydych chi'n nodi mwy nag un digwyddiad, cliciwch Safio ac Ychwanegu Un Arall. Ar ôl ichi gofnodi'r holl ddigwyddiadau, cliciwch Cadw a Dychwelyd i fynd yn ôl i'r brif dudalen Tystiolaeth o lifogydd.



Ar ôl ichi nodi'r holl ddigwyddiadau, bydd rhestr yn ymddangos ar waelod y dudalen. Gallwch addasu neu ddileu unrhyw un o'r digwyddiadau drwy glicio ar y botymau Addasu neu Dileu.





## Costau a Manteision

Nodwch nifer y cartrefi a'r busnesau a fydd yn elwa. Bydd "Cyfanswm Eiddo" yn diweddaru wrth i'r rhain gael eu cofnodi. Rhaid ichi ateb yr holl gwestiynau gorfodol sydd wedi'u marcio â * ar y dudalen hon.

Dylai cyfanswm y prosiect gael ei rannu dros ddwy flynedd. Rhowch Gyfanswm Cost y Gwaith ar gyfer Blwyddyn 1 (2023-2024) a Blwyddyn 2 (2024-2025). Ni chaiff cyfanswm y Ddwy Flynedd hyn fod dros £300,000. Os ydych am gwblhau cynllun y disgwylir iddo fod dros £300,000 dros y ddwy flynedd, cysylltwch â'r Gangen Lifogydd yn Floodcoastalrisk@gov.wales i drafod yr opsiynau.

Ceisiwch rannu'r opsiynau mor gywir ag y bo modd, gan efallai na fydd modd trosglwyddo cyllid rhwng y ddwy flynedd hyn.



Cyfanswm Cost y Gwaith (£)* 0.00


Sut mae'r costau a roddwyd wedi cael eu hamcangyfrif?*

0 / 500

Printio English Gadael Yn ôl Safio Nesaf

## Manteision Ehangach a Nodau Llesiant

Cliciwch ar y botwm/botymau Ychwanegu Mantais a/neu Ychwanegu Nod Llesiant i ychwanegu'r manteision ehangach a'r nodau llesiant ar gyfer y prosiect.





Sylwer: Fel un o amodau'r cyllid hwn gofynnir ichi adrodd yn erbyn y manteision ehangach a restrir yn blwch testun ac isod

- Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy
- Lliniaru ac addasu i newid hinsawdd
- Cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu
- Gwarchod a gwella'r cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, ac annog y cyhoedd i gael mynediad atynt a'u defnyddio; a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.


Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu llinell o dan bob un o'r manteision hyn. Pan na fydd mantais ehangach yn berthnasol, nodwch hynny.

Cewch gofnodi cynifer o Fanteision Ehangach ag sy'n berthnasol drwy ddewis o'r gwymplen a nodi'r manylion yn y blwch testun.





Os ydych yn nodi nifer o fanteision ehangach, cliciwch ar Cadw ac Ychwanegu Un Arall. Ar ôl ichi nodi’r holl fanteision ehangach, cliciwch Cadw a Dychwelyd i fynd yn ôl i'r brif sgrin Manteision Ehangach a Nodau Llesiant.

Cewch gofnodi cynifer o Nodau Llesiant ag sy'n berthnasol drwy ddewis o'r gwymplen a nodi'r manylion yn y blwch testun.





Os ydych yn nodi nifer o nodau llesiant, cliciwch Safio ac Ychwanegu Un Arall. Ar ôl ichi nodi'r holl nodau llesiant, cliciwch Cadw a Dychwelyd i fynd yn ôl i'r brif sgrin Manteision Ehangach a Nodau Llesiant.

Ar ôl ichi nodi'r holl fanteision ehangach a'r nodau llesiant, bydd rhestr yn ymddangos ar waelod y dudalen Manteision Ehangach a Nodau Llesiant. Gallwch addasu neu ddileu unrhyw un o'r manteision neu'r nodau llesiant drwy glicio ar y botymau Addasu neu Dileu.




## Manylion y Gwaith Arfaethedig

Rhowch fanylion y gwaith y bwriedir ei wneud a’r rhesymau pam mae angen gwneud y gwaith.




## Ymgynghoriadau a Chydsyniadau

Nodwch fanylion unrhyw ymgynghoriadau a chydsyniadau. Os yw hynny'n berthnasol, nodwch unrhyw faterion amgylcheddol eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiect.



## Gwerth am Arian

Manylwch ar sut y byddwch yn caffael y gwaith a nodwch y risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect. Dylech gynnwys unrhyw wybodaeth arall i gefnogi'ch cais.





## Rhestr Gwirio Dogfennau Ategol

Rhaid cyflwyno dogfennau ategol erbyn y dyddiad cau naill ai pan gyflwynir y cais neu drwy'r tab "Fy Negeseuon" ar y sgrin Hafan.




## Tudalen Gyflwyno – Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae'r dudalen hon yn rhoi crynodeb o'r eitemau yr ydych wedi'u dewis ac yn rhoi gwybod ichi am unrhyw gamgymeriadau neu negeseuon gwybodaeth ar eich cais.




Ar ôl ichi gywiro unrhyw gamgymeriadau, bydd tic gwyrdd i’w weld ar bob adran





## Tudalen Gyflwyno – Datganiadau ac Ymrwymiadau

Mae'n rhaid ichi ddarllen y Datganiadau a’r Ymrwymiadau a thicio’r blwch i gadarnhau eich bod wedi’u darllen a’ch bod yn cytuno â nhw.



## Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno


I gyflwyno'ch cais am Grant Rheoli Llifogydd yn Naturiol i Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, cliciwch y Botwm Cyflwyno.




Ar ôl ichi gyflwyno'ch cais, byddwch yn cael cadarnhad. Gallwch ei argraffu a'i gadw ar gyfer eich cofnodion.

Gallwch hefyd gyflwyno dogfennau yn awr drwy glicio'r botwm Cyflwyno Dogfennau, neu gallwch adael y cais.

Ar ôl ichi gyflwyno'r cais, gallwch ddechrau cais newydd.





Bydd crynodeb o'ch cais am Grant Rheoli Llifogydd yn Naturiol i Reoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn cael ei ychwanegu at dudalen 'Negeseuon' eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl "Dogfennau sydd wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru ". Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr wybodaeth yn drylwyr. Os oes unrhyw wybodaeth yn anghywir, atebwch y neges gan esbonio'ch pryderon. Dylech wneud hynny cyn gynted ag y dowch o hyd i unrhyw wybodaeth anghywir.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu gweld ein gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

## Cyflwyno Dogfennau Ategol

Gallwch gyflwyno dogfennau ategol ynghyd â'ch cais drwy ddewis Cyflwyno Dogfennau a dilyn y cyfarwyddiadau Creu Neges isod.






Gallwch hefyd ddarparu'r dogfennau ategol yn ddiweddarach drwy ddilyn y canllawiau isod.

I ychwanegu unrhyw ddogfennau ategol, cliciwch y Tab Goheiaeth ar sgrin hafan RPW Ar-lein a dewiswch Creu Negese, fel y dangosir isod.





Dewiswch Creu Neges






Dewiswch pa ffeil rydych chi am ei huwchlwytho i'ch neges a dewis Open.







Bydd eich dogfen wedi'i huwchlwytho yn ymddangos o dan eich neges.


Gallwch ychwanegu dogfennau eraill drwy ailadrodd y cyfarwyddiadau blaenorol.

I ddileu dogfen, dewiswch Dilëwch.

I anfon eich neges a'ch dogfennau wedi'u huwchlwytho, dewiswch Anfon.

Unwaith y bydd y neges wedi'i hanfon, byddwch yn derbyn hysbysiad ar y sgrin gyda'ch cyfeirnod.




Bydd eich gohebiaeth yn ymddangos o dan eich Tab Negeseuon.